Rhaglen Gyfalaf y Loteri

# Nodiadau Cymorth

## Prosiectau Cyfalaf Mawr

Cyngor Celfyddydau Cymru | Mawrth 2017

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 2 |
| Gwneud Cais Ar-lein | 3 |
| **Adran 1: Eich Sefydliad** | 6 |
| **Adran 2: Eich Cynnig Prosiect** | 9 |
| Diwallu angen a nodwyd | 10 |
| Cyflawni prosiect o ansawdd uchel | 11 |
| Bod o fudd i'r cyhoedd | 15 |
| Sicrhau bod eich prosiect yn hollol hygyrch | 16 |
| Dangos eich cryfderau a'ch cynaliadwyedd | 16 |
| Cynllunio a rheoli prosiect llwyddiannus | 19 |
| Ariannu prosiect llwyddiannus | 20 |
| Rheoli Risg | 24 |
| **Adran 3: Manylion yr Adeilad** | 25 |
| **Adran 4: Manylion y Prosiect** | 27 |
| **Adran 5: Datganiad** | 29 |
| **Adran 6: Atodiadau** | 30 |
| Gwybodaeth ategol arall | 31 |
| **Adran 7: Adolygu fy Nghais** | 33 |
| Bwrw golwg dros eich cais | 33 |
| Beth i'w wneud os na allwch dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol | 33 |
| Ymwadiad | 34 |
| Cysylltu â Ni | 34 |


Mae'r holl ddogfen hon wedi'i hyperddolennu. Wrth glicio ar y penawdau ar y tudalen cynnwys, eir â chi'n syth i'r adran berthnasol. Cliciwch i ddychwelyd i'r tudalen cynnwys.

# Nodiadau Cymorth

# Prosiectau Cyfalaf Mawr

## Cyflwyniad

Croeso i'n Nodiadau Cymorth ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf: Prosiectau Cyfalaf Mawr. Gallwch wneud cais i'r elfen hon o'r Rhaglen Gyfalaf am gyllid tuag at brosiectau adeiladu mawr.

Bydd eich prosiect eisoes wedi cwblhau'r camau dichonoldeb a datblygu dyluniad. Byddwn wedi adolygu'r rhain a byddwch wedi cael eich gwahodd i wneud cais am gyllid tuag at y gwaith adeiladu, dodrefnu a'r costau cysylltiedig. Os nad yw eich prosiect wedi cyrraedd Cam 3 **(Dyluniad Datblygedig)** RIBA (Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain), cysylltwch â Chyngor y Celfyddydau am ragor o gyngor.

Nod y nodiadau hyn yw eich helpu i gwblhau eich cais ar-lein.

Gwnawn egluro sut i ddefnyddio ein system ar-lein, yn ogystal â rhoi arweiniad i chi ar y wybodaeth y mae'n rhaid i ni ei chael am eich prosiect. Gwnawn hefyd ddweud wrthych pam ein bod yn gofyn am wybodaeth benodol a sut y gwnawn ddefnyddio'r wybodaeth a rowch i ni. Dylai'r holl wybodaeth rydych yn ei rhoi fod mor gywir a chyfredol â phosibl.

Bydd hefyd angen i chi gyflwyno dogfennau ategol gyda'ch cais. Bydd y nodiadau hyn yn egluro mwy am y dogfennau sydd eu hangen gennych, a sut i'w cyflwyno.

### Sut i ddefnyddio'r Nodiadau Cymorth hyn

Gall y Nodiadau Cymorth hyn gael eu darllen ar eu pen eu hunain neu gallwch ddilyn yr hyperddolenni er mwyn edrych ar adrannau penodol o'r nodiadau wrth i chi lenwi eich ffurflen ar-lein. Dylai'r rhain gael eu darllen ar y cyd â'r Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru, ein Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2012-2017 a'n Nodiadau Canllaw Ychwanegol: Prosiectau Cyfalaf Mawr.

### "Eich Prosiect" a "Canlyniadau Prosiect"

Drwy'r nodiadau hyn siaradwn am "eich prosiect". Defnyddiwn y term hwn i ddisgrifio testun eich cais. Er enghraifft, gallai eich prosiect ymwneud â phrynu cyfarpar sain a goleuadau newydd ar gyfer eich theatr.

Rydym hefyd yn siarad am "canlyniadau prosiect". Defnyddiwn y term hwn i ddisgrifio'r hyn fydd yn digwydd os yw eich cais yn llwyddiannus a bod eich prosiect yn mynd rhagddo. Er

enghraifft, gallai prosiect i brynu cyfarpar sain a goleuadau newydd olygu eich bod yn gallu llwyfannu mwy o gynyrchiadau, a allai wedyn arwain at fwy o incwm.

### Atodiadau

Drwy'r nodiadau hyn, nodwn, mewn blychau, y wybodaeth ategol y mae'n rhaid i chi ei darparu gyda'ch ffurflen gais. Mae'n ein helpu i sicrhau bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais a / neu mae'n ein helpu gyda'n hasesiad.

Rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon.

Gallwch ddarllen mwy am sut i lanlwytho'r wybodaeth hon gan ddefnyddio ein system ar-lein yn adran chwech o'r nodiadau hyn. Yma hefyd, byddwn yn eich atgoffa am y wybodaeth sydd ei hangen gennych.

### Fformatau Amgen a Hygyrch

Weithiau bydd rhesymau penodol pam bod pobl yn ei chael hi'n anodd gwneud cais am grant i ddefnyddio ein gwasanaethau. Os byddwch yn cael neu'n disgwyl cael unrhyw broblemau wrth wneud cais, neu fod angen help arnoch i wneud cais, neu i ddefnyddio ein gwasanaethau a chael gafael ar ein gwybodaeth, cysylltwch â ni er mwyn trafod y mathau o gymorth y gallwn ei ddarparu. Rhoddir ein manylion cyswllt yma.

### Cadw mewn Cysylltiad

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen newid ein Rhaglen Gyfalaf. Cyhoeddir unrhyw newidiadau ar ein gwefan.

Drwy gofrestru yn http://www.celf.cymru/ cewch y wybodaeth ddiweddaraf am ein harian Loteri yn awtomatig, yn ogystal â newyddion am ymgynghoriadau a mentrau eraill. Cofrestrwch nawr i gael ein Cylchlythyr neu i danysgrifio i'n ffrwd Newyddion. Neu dilynwch ni ar Twitter @Celf_Cymru_.

## Gwneud Cais Ar-lein

Gallwch weld ein system gwneud cais ar-lein drwy fynd i'n gwefan, a thrwy glicio ar y dolenni. Neu gallwch glicio yma. Bydd angen eich manylion mewngofnodi arnoch. Cofiwch na ddylech rannu'r manylion hyn ag unrhyw un y tu allan i'ch sefydliad.

Ar ôl i chi glicio ar y botwm *Dechrau cais* bydd angen i chi gwblhau holiadur syml er mwyn gweld a ydych yn gymwys i wneud cais. Os yw'ch sefydliad yn gymwys gofynnir i chi ddewis ffurflen gais. Os byddwch yn gwneud unrhyw ddatganiadau camarweiniol neu anwir ar yr

holiadur rhaid i chi ad-dalu unrhyw grant a roddir i chi. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â ni.

Pan fyddwch yn gweithio ar eich cais ar-lein, mae'n werth cofio'r canlynol:

- Gallwch gwblhau eich cais mewn un sesiwn, neu weithio arno ar wahanol adegau.
- Gallwch lenwi'r adrannau yn y ffurflen ym mha bynnag drefn a fynnwch, ond dim ond pan fydd pob adran wedi'i chwblhau y cewch gyflwyno eich cais
- Os bydd eich ffurflen gais ar agor ar eich cyfrifiadur, ond nad ydych yn gweithio arni am ddwy awr, cewch eich allgofnodi'n awtomatig o'n system ar-lein. Yna caiff unrhyw waith nad ydych wedi'i arbed ei golli

Nid oes gan y Rhaglen Gyfalaf unrhyw derfynau amser. Ar yr amod eich bod wedi trafod eich prosiect gyda swyddog, cewch gyflwyno eich cais ar unrhyw adeg.

Rhestr Wirio Dechrau Arni

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen ein Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru a Prosiectau Cyfalaf Mawr – Nodiadau Canllaw Ychwanegol cyn i chi ddechrau llenwi eich ffurflen gais.

Oes gennych chi bopeth sydd ei angen i gwblhau eich ffurflen gais?

- Manylion cyswllt a gwybodaeth eich sefydliad (oni bai eich bod wedi gwneud cais blaenorol gan ddefnyddio ein system ar-lein)
- Eich cynnig ysgrifenedig
- Manylion eich prosiect, gan gynnwys ei ddyddiadau dechrau a gorffen, dadansoddiadau o'r math o gelfyddyd a gwybodaeth cydraddoldeb
- Eich dogfen lywodraethu, fel cyfansoddiad, gweithred ymddiriedolaeth neu erthyglau cymdeithasu
- Cyllideb eich prosiect (rhaid ei chyflwyno ar y templed wedi'i lawrlwytho)
- Cynllun Costau Cam 3
- Adroddiad Dylunio a darluniau Cam 3

- Eich manyleb dechnegol a rhestr o'r cyfarpar i'w brynu
- Eich asesiad o gynaliadwyedd a'ch strategaeth cynaliadwyedd
- Eich archwiliad mynediad annibynnol
- Eich strategaeth gelf gyhoeddus
- Cylch gorchwyl grŵp rheoli eich prosiect
- Eich cynlluniau gweithredu a chynnal a chadw ar ôl cwblhau
- Eich rhaglen adeiladu
- Eich cynllun busnes
- Prawf bod gan eich sefydliad gyfrif banc lle mae angen i o leiaf ddau unigolyn awdurdodi trafodion
- Eich gwybodaeth ategol arall (a allai gynnwys caniatâd gan eich landlord i'r prosiect fynd rhagddo, CVs ymgynghorwyr newydd, prawf o ganiatâd cynllunio, cadarnhad o gyllid partneriaeth, arolwg strwythurol, caniatâd adeilad rhestredig ac ati.

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys]

# Adran 1: Eich Sefydliad

Yn yr adran hon rydym yn gofyn i chi ddarparu peth gwybodaeth sylfaenol am eich sefydliad. Mae'n bwysig bod y wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni mor gywir a chyson ag unrhyw wybodaeth arall rydych wedi ei rhoi i ni, neu wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi eisoes fel:

- Gwybodaeth ar eich gwefan neu gyfryngau cymdeithasol
- Gwybodaeth y gallwn ddod o hyd iddi ar y we, neu
- Wybodaeth a ddelir gan gyrff rheoleiddio fel y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau

## Manylion Cyswllt

Gofynnwn am o leiaf dair set o fanylion cyswllt:

- Cyfeiriad eich sefydliad (rhaid mai prif swyddfa neu leoliad gweinyddol eich sefydliad yw hwn. Os ydych yn gwmni neu'n elusen, rhaid mai eich cyfeiriad cofrestredig presennol ydyw)
- Cadeirydd eich corff llywodraethu
- Yr unigolyn o fewn eich sefydliad sydd wedi'i awdurdodi i ddelio â phob mater sydd ynghlwm wrth y cais hwn (sef y Prif Gyswllt)

Byddwn yn cysylltu â'r Prif Gyswllt mewn perthynas â phob agwedd ar eich cais, a rhaid ei fod wedi'i awdurdodi gan eich sefydliad i lofnodi a chymeradwyo dogfennau ac ateb unrhyw ymholiadau a all fod gennym.

Rhaid bod gennym fanylion cyswllt ar gyfer mwy nag un unigolyn o sefydliad bob amser. Felly, os mai'r un unigolyn yw eich Cadeirydd a'r Prif Gyswllt, rhowch fanylion cyswllt arall sydd ag awdurdod priodol o'ch sefydliad.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, anfonir y cynnig grant at y Prif Gyswllt. Bydd yn gyfrifol am anfon y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnom er mwyn ymdrin ag unrhyw amodau penodol a roddir ar y grant, yn ogystal â'r adroddiadau ar gynnydd y gofynnwn amdanynt, ac adroddiad cwblhau unwaith y daw'r prosiect i ben.

Dim ond y tro cyntaf y byddwch yn gwneud cais i ni ar-lein y gofynnwn i chi ddarparu'r manylion cyswllt hyn. Gan eich bod eisoes wedi gwneud cais i ni, bydd y manylion hyn eisoes wedi'u rhoi ar eich ffurflen i chi eu hadolygu a'u diweddaru os oes angen.

## Trydydd partïon

Rhaid mai eich sefydliad sy'n gyfrifol am bob cais, ac nid trydydd parti. Hyd yn oed os byddwch wedi cael help i ddatblygu eich cais, rhaid i'r manylion cyswllt a roddir gennych fod ar gyfer unigolion o'ch sefydliad sydd â'r awdurdod priodol i wneud penderfyniadau a llofnodi dogfennau fel contractau a chytundebau ariannu ar ran eich sefydliad.

Cofiwch na allwn gyfrannu at unrhyw gostau yr aed iddynt am gyngor a help wrth gwblhau eich cais.

Fel rhan o'n gweithdrefnau gwrth-dwyll, byddwn yn ymchwilio i unrhyw ffurflen gais a gyflwynwyd sy'n debyg iawn i eraill a gafwyd gennym. Byddwn hefyd yn ymchwilio os cyflwynir cais yn enw eich sefydliad a'n bod yn darganfod nad ydych yn ymwybodol o'r prosiect na'r cais am gyllid.

## Eich sefydliad a'ch prif weithgareddau

Gofynnir i ni'n aml am y mathau o sefydliadau rydym yn eu hariannu a'r gweithgareddau celfyddydol a gynhelir ganddynt. Bydd y wybodaeth a roddir gennych yma yn ein helpu i ateb y cwestiynau hyn. Bydd hefyd yn ein helpu wrth i ni asesu eich cais. Mae tri pheth i chi eu gwneud:

- Dweud wrthym am eich sefydliad. Dim ond 500 gair y gallwch eu hysgrifennu felly meddyliwch am y prif ffeithiau sy'n crynhoi eich sefydliad, eich gweithgareddau celfyddydol arferol a'r ffordd rydych yn gweithio

- Dewiswch y categorïau mwyaf priodol o'r cwymplenni. Os nad ydych yn siŵr ym mha ranbarth Llywodraeth y'ch lleolir, defnyddiwch ein hadnodd chwilio am god post ar-lein

- Nodwch faint o staff cyflogedig neu wirfoddol sydd gennych. Mae hyn yn ein helpu i ddeall maint eich sefydliad a nifer y bobl a fydd yn cefnogi eich prosiect. Talgrynnwch y nifer hon

### Atodiad: Dogfen Lywodraethu

Rhaid i chi gyflwyno dogfen lywodraethu eich sefydliad (fel cyfansoddiad, gweithred ymddiriedolaeth neu erthyglau cymdeithasu) gyda'ch cais, oni bai eich bod yn gyngor tref, awdurdod lleol, corff iechyd neu brifysgol (oherwydd cyrff statudol yw'r rhain).

Mae eich dogfen lywodraethu yn nodi sut mae eich sefydliad yn gweithio. Mae'n dweud wrthym am ddiben eich sefydliad a sut mae'n ei gyflawni.

Rydym yn cymryd y gwaith o ddosbarthu cyllid cyhoeddus o ddifrif, a dyna pam bod y ffordd rydych yn rhedeg eich sefydliad yn bwysig i ni. Rhaid i ni sicrhau bod eich sefydliad yn gadarn ac y gall reoli grant yn briodol.

Os byddwn wedi cael copi o'ch dogfen lywodraethu ers mis Ionawr 2016, dim ond os yw wedi newid y bydd angen i chi ei hailgyflwyno.

Gallwch ddarllen mwy am ein camau gwirio cymhwysedd a'r hyn y byddwn yn chwilio amdano yn eich dogfen lywodraethu yn ein Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae ein Taflen Wybodaeth ar lywodraethu yn rhoi rhagor o ffynonellau cyngor.

Noder ein bod yn adolygu eich dogfen lywodraethu er mwyn ymdrin ag agweddau penodol ar ein meini prawf cymhwyso ac asesu. Wrth wneud hynny, nid ydym yn cynnal "archwiliad iechyd" llawn o'ch sefydliad nac yn cefnogi eich dull o lywodraethu. Os yw'ch sefydliad wedi'i gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau neu'r Comisiwn Elusennau, chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod wedi bodloni'r holl ofynion rheoleiddio priodol.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

## Adran 2: Eich Cynnig Prosiect

Yn yr adran hon rydym yn gofyn i chi fanylu ar eich prosiect. Yn hytrach na gofyn i chi ateb llawer o gwestiynau, hoffem i chi ysgrifennu cynnig ynglŷn â'ch prosiect.

Rydym wedi nodi saith thema eang y mae'n rhaid i bob cais am arian Loteri Cyfalaf ymdrin â nhw, sef:

- Diwallu angen a nodwyd
- Cyflawni prosiect o ansawdd uchel
- Bod o fudd i'r cyhoedd
- Sicrhau bod eich prosiect yn hollol hygyrch
- Dangos eich cryfderau a'ch cynaliadwyedd
- Cynllunio a rheoli prosiect llwyddiannus
- Ariannu prosiect llwyddiannus
- Rheoli risg

Bydd pob rhan o'ch cynnig yn ymwneud ag un o'r themâu hyn.

Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y strwythur hwn a'r canllawiau ar y wybodaeth y mae angen i chi ei rhoi gan fod hyn yn ein helpu i gymharu tebyg at ei debyg fel rhan o'n proses asesu.

Ymhob rhan bydd angen i chi nodi rhai ffeithiau allweddol am eich prosiect. Hefyd, bydd angen i chi ddangos i ba raddau y mae eich prosiect yn ymdrin â phob thema. Nodir y wybodaeth sydd ei hangen isod.

Ni chyfyngir ar faint y gallwch ei ysgrifennu a rhaid i chi sicrhau bod eich cynnig yn rhoi'r holl wybodaeth rydym yn gofyn amdani.

Dylech ddarparu tystiolaeth i ategu eich cynnig lle bynnag y bo modd. Yn arbennig, mae angen i ni weld tystiolaeth glir o alw a chefnogaeth i'ch prosiect. Bydd hefyd angen i chi anfon cyllideb y prosiect atom ynghyd â gwybodaeth i ategu eich prosiect. Cliciwch yma i ddarllen mwy am atodiadau.

### Blaenoriaethau cyllid

Rydym yn defnyddio blaenoriaethau cyllid i'n helpu i dargedu ein buddsoddiad a dewis ceisiadau. Dim ond ceisiadau sy'n cyd-fynd yn gryf â'n blaenoriaethau y gwnawn eu hystyried.
Gallwch ddarllen mwy am ein blaenoriaethau cyllid yn y Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru a'n Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2012-2017.

### Sut rydym yn defnyddio eich cynnig prosiect

Gwyddom y bydd cryn alw am ein harian Loteri Cyfalaf a bod llawer o geisiadau da na allwn eu cefnogi am nad oes digon o arian ar gael.

Defnyddiwn y wybodaeth yn eich cynnig prosiect i'n helpu i wneud penderfyniad ar eich cais. Ystyriwn pa mor dda rydych wedi ymdrin â'r themâu eang a nodwyd gennym. Rydym hefyd yn ystyried ein blaenoriaethau strategol a chyllid, ein gwybodaeth am eich sefydliad a'ch prosiectau blaenorol a ariannwyd gennym. Gallwch ddarllen mwy am yr hyn rydym yn chwilio amdano wrth asesu eich cais yn y Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru.

## Diwallu angen a nodwyd

*Dywedwch wrthym am eich prosiect a pham bod ei angen.*

Nodwch ffeithiau allweddol eich prosiect. Byddwn yn gofyn am wybodaeth fanylach yn nes ymlaen, ond yma hoffem i chi grynhoi'r hyn rydych am ei wneud a beth fydd yn ei gyflawni, pam eich bod am ei wneud a pham ei fod yn bwysig i chi.

### Yn eich cynnig prosiect, dylech wneud y canlynol:

- Disgrifio eich prosiect. Sôn am y gwaith adeiladu a/neu ailddatblygu/adnewyddu rydych am ei wneud:
  - Nodi gofynion cyfalaf eich cynllun fel y'u nodir yn eich Briff Prosiect Terfynol
  - Nodi sut mae eich prosiect yn diwallu anghenion llety ac yn bodloni gofynion technegol eich defnyddwyr

- Nodi sut mae eich prosiect yn cyd-fynd â nodau eich sefydliad:
  - Pam ei bod yn briodol i'ch sefydliad gyflawni'r prosiect hwn?
  - Sut y bydd yn eich helpu i ehangu ar yr hyn rydych yn ei wneud eisoes neu ei wella?

- Dweud wrthym sut rydych yn gwybod bod angen eich prosiect:
    - Pa dystiolaeth o alw sydd gennych?
    - A yw'ch prosiect yn rhan o gynllun strategol ehangach, er enghraifft strategaeth adfywio neu gelfyddydol a arweinir gan yr awdurdod lleol?
    - Sut y bydd yn cyfrannu at y seilwaith celfyddydol cenedlaethol?

- Nodi pam bod eich prosiect yn diwallu'r angen a nodwyd.

Efallai y gwelwch nad oes fawr ddim gwybodaeth am yr angen am eich prosiect wedi newid ers i chi wneud eich cais i ni ar gyfer y gwaith datblygu dyluniad. Mae hyn yn iawn, ond rhaid i chi sicrhau eich bod yn sôn wrthym am unrhyw newidiadau neu unrhyw waith pellach rydych wedi'i wneud ar y thema hon.

Atodiadau

Bydd angen i chi gyflwyno'r wybodaeth ganlynol gyda'ch ffurflen gais:

- Adroddiad Dylunio manwl Cam 3 a set lawn o ddarluniau dylunio

- Eich manyleb dechnegol a rhestr o'r cyfarpar i'w brynu

Rydym yn chwilio am y canlynol:

- Disgrifiad clir o brosiect cyfalaf mawr sydd wedi'i ddylunio'n dda ac yr ymchwiliwyd iddo'n dda

- Y graddau rydych wedi dangos bod angen eich prosiect a pha mor dda mae'ch prosiect yn diwallu'r angen a nodwyd gennych

## Cyflawni prosiect o ansawdd uchel

*Dywedwch wrthym am weledigaeth eich prosiect. Beth rydych am ei gyflawni? Pa gamau a gymerwch i sicrhau bod eich prosiect yn addas at y diben ac y bydd o ansawdd uchel?*

Yn eich cynnig prosiect, dylech wneud y canlynol:

- Nodi gweledigaeth a nodau eich prosiect. Sut y gwnaethoch gytuno ar y rhain?

- Nodi sut y gwnewch sicrhau eich bod yn cyflawni prosiect o ansawdd uchel:
    - Pa gamau rydych wedi eu cymryd i sicrhau bod eich prosiect wedi'i ddylunio'n dda?

- Dangos eich bod wedi ystyried ymarferoldeb eich prosiect:
    - Dangos sut mae unrhyw waith adeiladu neu ailddatblygu / adnewyddu yn briodol i'w ddefnydd arfaethedig, neu'n "addas at y diben"
    - Nodi sut y bydd eich prosiect yn gwneud defnydd arloesol o'r lle sydd gennych

- Dangos sut y bydd eich prosiect yn sicrhau cymaint o fynediad annibynnol â phosibl i'r ystod ehangaf o bobl, gan gynnwys pobl anabl, p'un a ydynt yn ymwelwyr, yn gyfranogwyr, yn artistiaid neu'n aelodau o staff:
    - Nodi canfyddiadau allweddol eich archwiliad mynediad annibynnol a sut rydych wedi gweithredu ei argymhellion yn eich prosiect

- Dangos sut rydych wedi ystyried effaith ffisegol eich prosiect:
    - Os ydych yn ailddatblygu neu'n adnewyddu adeiladu sy'n bodoli eisoes, nodi sut mae'n integreiddio â gweddill eich safle
    - Nodi sut y byddwch yn sicrhau bod unrhyw waith allanol yn integreiddio â'r adeiladau o amgylch a'r amgylchedd

- Dangos sut rydych wedi ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy yn eu hystyr ehangaf:
    - Nodi a ydych wedi ymrwymo i Siarter Datblygu Cynaliadwy Cymru. Os nad ydych wedi gwneud hyn eto, bydd hyn yn un o amodau eich grant, os bydd eich cais yn llwyddiannus
    - Dweud wrthym sut mae eich prosiect yn cyfrannu at y nodau llesiant fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Nodi sut rydych wedi ystyried perfformiad amgylcheddol eich prosiect:
    - Nodi canfyddiadau allweddol eich asesiad o gynaliadwyedd a sut rydych wedi gweithredu ei ganfyddiadau yn eich prosiect. Wrth wneud hynny, dylech:
    - Ddangos sut rydych yn anelu at leihau'r galw am ynni, yn ogystal â chynyddu effeithlonrwydd ynni, a sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o danwydd adnewyddadwy
    - Nodi sut y byddwch yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o ddeunyddiau cynaliadwy
    - Nodi sut y byddwch yn lleihau'r defnydd o ddŵr yn eich adeilad
    - Sôn am eich dull o reoli gwastraff a llygredd, ar y cam adeiladu a phan fydd eich prosiect ar waith
    - Nodi sut rydych wedi ystyried goblygiadau teithio a thrafnidiaeth eich prosiect, a ph'un a ydych wedi llunio cynllun teithio gwyrdd

- Os ydych yn prynu cyfarpar, nodi:
    - Pa ymchwil a wnaed gennych er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfarpar rydych am ei brynu yn addas at y diben ac yn diwallu'r angen a nodwyd gennych
    - Pa ymchwil a wnaed gennych i ansawdd y cynnyrch rydych am ei brynu ynghyd â'i hyd oes a'i gostau cynnal a chadw
    - Pa ymchwil a wnaed gennych i ddangos bod unrhyw gyfarpar rydych wedi dewis ei brynu yn cynnig gwerth am arian

- Nodi a fu unrhyw newidiadau i'ch tîm prosiect ers cwblhau'r cam datblygu dyluniad (RIBA Cam 3 **Dyluniad Datblygedig**), a pham y gwnaethoch y newidiadau hyn

- Os ydych yn gwneud unrhyw benodiadau eraill i'ch tîm prosiect ar y cam hwn, nodi:
    - Rôl a thelerau'r penodiad
    - Y llwybr caffael rydych wedi'i ddewis ar gyfer y penodiadau hyn
    - Pam bod angen gwneud y penodiad

- Nodi eich dull caffael arfaethedig ar gyfer gwaith adeiladu ac unrhyw gyfarpar / nwyddau. Os ydych eisoes wedi gwneud y penodiadau hyn, nodi pam a'r broses a ddilynwyd

- Dangos sut y byddwch yn cyflawni eich rhwymedigaethau statudol ar y cam adeiladu o ran:
    - Rheoliadau Adeiladu
    - Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
    - Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) (CDM) 2015
    - Rheoliadau Rheoli Asbestos

Wrth brynu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer eich prosiect, rhaid i chi gydymffurfio â deddfwriaeth gaffael gyfredol y DU a'r UE sy'n gymwys i'ch sefydliad a'ch prosiect. Bydd yn ofynnol i unrhyw unigolyn neu sefydliad / contractwr sy'n gweithio ar eich prosiect a gaiff £5,000 neu fwy gael ei benodi drwy broses dendro gystadleuol. Os gwnaed y penodiadau hyn eisoes, bydd angen i chi gyflwyno adroddiad tendr priodol.

Os ydych yn bwriadu prynu cyfarpar nad yw'n rhan o brif gontract y prosiect, rhaid i chi gyflwyno tri dyfynbris gan gyflenwyr gwahanol ar gyfer pob eitem neu becyn o eitemau sy'n costio £2,500 neu fwy.

Os hoffech brynu pecyn o eitemau gan un cyflenwr a fydd yn costio £30,000 neu fwy dylech hefyd gyflwyno adroddiad tendr sy'n nodi pam eich bod wedi dewis defnyddio'r cyflenwr hwnnw a pham bod prynu'r cyfarpar yn y ffordd hon yn cynnig gwerth am arian.

Gallwch ddarllen mwy am ein gofynion o ran datblygu cynaliadwy ac effaith amgylcheddol eich prosiect, ac am ansawdd dylunio ac adeiladu a chaffael yn ein Nodiadau Canllaw Ychwanegol: Prosiectau Cyfalaf Mawr.

Atodiadau

Bydd angen i chi gyflwyno'r wybodaeth ganlynol gyda'ch ffurflen gais:

- Archwiliad mynediad annibynnol
- Asesiad o gynaliadwyedd a strategaeth cynaliadwyedd
- Cynlluniau gweithredu a chynnal a chadw ar ôl cwblhau

Archwiliad mynediad annibynnol

Byddwch wedi cwblhau archwiliad mynediad fel rhan o'ch gwaith datblygu dyluniad. Bydd wedi cynnwys adolygiad o unrhyw rwystrau sy'n atal yr ystod ehangaf o bobl, gan gynnwys pobl anabl, rhag cael mynediad i'ch adeilad a defnyddio eich gwasanaethau. Dylai fod yn eang ei gwmpas, ond mae'n bwysig cofio mai dim ond y cam cyntaf yw cynnal archwiliad; beth sy'n hanfodol yw sut rydych yn gweithredu ei argymhellion.

Asesiad o gynaliadwyedd a strategaeth cynaliadwyedd

Mae'r rhain yn sicrhau bod eich gwaith dylunio manwl yn cael ei ategu gan eich dyheadau ym maes cynaliadwyedd, ac yn gwerthuso eich opsiynau o ran defnyddio technolegau cynaliadwy.

Cynlluniau gweithredu a chynnal a chadw ar ôl cwblhau

Dylai'r rhain ddangos bod eich dull o gyflawni perfformiad amgylcheddol effeithiol a chynaliadwyedd wedi'i ymgorffori yn arferion gwaith eich sefydliad yn y dyfodol. Bydd ffurf y rhain yn dibynnu ar eich sefydliad a maint a natur eich prosiect, ond dylech ystyried materion fel darparu hyfforddiant wrth ddefnyddio technolegau cynaliadwy newydd, dulliau gweithredol o arbed ynni, rheoli gwastraff ac ailgylchu a chaffael ynni tariff gwyrdd.

Rydym yn chwilio am y canlynol:

- Gweledigaeth glir, priodol a chyflawnadwy, y mae holl randdeiliaid eich prosiect yn cytuno arni
- Y graddau rydych wedi dangos y gwnewch gyflawni prosiect o ansawdd uchel a wnaiff gyflawni eich gweledigaeth ac sy'n addas at y diben

## Bod o fudd i'r cyhoedd

*Dywedwch wrthym am effaith eich prosiect (canlyniadau'r prosiect) a'i fuddiannau i bobl Cymru.*

Yn eich cynnig prosiect, dylech wneud y canlynol:

- Dweud wrthym am ganlyniadau eich prosiect. Beth a wnaiff newid os gallwch gyflawni'r prosiect hwn? Beth rydych yn gobeithio fydd effaith hirdymor eich prosiect?

- Nodi sut y bydd eich prosiect yn cyfrannu at y sector celfyddydol yng Nghymru. Dylech wneud hyn drwy ddangos sut mae eich prosiect yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau cyllid ar gyfer y rhaglen Loteri Gyfalaf. Gallwch ddarllen mwy am ein blaenoriaethau cyllid yn y Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru a'n Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2012-2017.

- Disgrifio'r bobl a gaiff fudd o'ch prosiect a sut y cânt fudd. Er enghraifft:
    - A fydd eich prosiect o fudd i'r rheini sydd eisoes yn mwynhau eich gweithgareddau celfyddydol, naill ai fel aelod o'r gynulleidfa neu gyfranogwr?
    - A fydd eich prosiect yn helpu cynulleidfa ehangach i fwynhau eich gweithgareddau celfyddydol, neu'n annog pobl newydd i gymryd rhan?
    - A fydd eich prosiect yn helpu gweithwyr proffesiynol creadigol fel artistiaid a chrefftwyr i ddatblygu a chyflwyno eu gwaith?
    - A fydd eich prosiect o fudd i'ch staff a'ch gwirfoddolwyr

- Nodi sut y bydd eich prosiect yn effeithio ar ansawdd a swm y gwaith a wnewch.

- Nodi sut y byddwch yn integreiddio gwaith celf yn eich prosiect

- Nodi sut y byddwch yn gwneud canlyniadau eich prosiect mor gynhwysol â phosibl drwy egluro sut rydych wedi ystyried anghenion pobl anabl a grwpiau eraill sy'n anodd eu cyrraedd

- Nodi sut y byddwch yn marchnata canlyniadau eich prosiect er mwyn sicrhau'r ymwneud ehangaf posibl â'ch gweithgareddau celfyddydol.

**Atodiad: Strategaeth Gelf Gyhoeddus**

Rhaid i chi gyflwyno eich strategaeth gelf gyhoeddus sy'n nodi eich dull o integreiddio gwaith celf yn eich prosiect. Dylai amlinellu strategaeth gydlynol ar gyfer comisiynu gwaith celf a rhoi manylion sut yr ewch ati i recriwtio artistiaid a rheoli'r comisiynau. Dylid hefyd ystyried sut yr eir ati i gynnal a chadw'r gwaith celf yn yr hirdymor a rhoi sicrwydd y gellir talu unrhyw gostau cylch oes.

Gallwch ddarllen mwy am ein disgwyliadau o ran celf gyhoeddus yn ein Nodiadau Canllaw Ychwanegol: Prosiectau Cyfalaf Mawr.

**Rydym yn chwilio am y canlynol:**

- Disgrifiad clir o ganlyniadau arfaethedig eich prosiect
- Y graddau rydych wedi dangos y gellir cyflawni canlyniadau'r prosiect
- Y graddau rydych wedi rhoi ystyriaeth briodol i gynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac wedi dangos bod eich sefydliad yn ymrwymedig i leihau'r rhwystrau i ymweld a chymryd rhan
- Y graddau rydych wedi integreiddio gwaith celf yn briodol yn eich prosiect

## Sicrhau bod eich prosiect yn hollol hygyrch

- Pa fesurau a gymerasoch i sicrhau bod eich prosiect yn diwallu gofynion y Ddeddf Gydraddoldeb? Er enghraifft, a ymgymerasoch ag archwiliad hygyrchedd diweddar a sut yr ymgorfforwch unrhyw argymhellion yn eich cynnig?

## Dangos eich cryfderau a'ch cynaliadwyedd

*Dywedwch wrthym am eich sefydliad a sut y caiff ei reoli. Dangoswch eich bod wedi ystyried effaith ariannol eich prosiect ar eich sefydliad.*

**Yn eich cynnig prosiect, dylech wneud y canlynol:**

- Dweud wrthym am eich strwythurau rheoli a staff, a sut y caiff eich sefydliad ei lywodraethu.
    - Pa sgiliau a phrofiad y mae eich corff llywodraethu yn eu cynnig i'r sefydliad?

- Sôn am yr "archwiliad iechyd" sefydliadol a gynhaliwyd:
    - Dangos sut rydych wedi adolygu cryfder eich corff llywodraethu, a'ch staff a'ch gwirfoddolwyr
    - Rhannu profiadau'r rheini sy'n gyfrifol am gyflawni prosiect o'r maint a'r cymhlethdod hwn
    - Nodi sut rydych yn ymdrin ag unrhyw fylchau a nodwyd o ran y sgiliau, y profiad a'r gallu sydd eu hangen i gyflawni eich prosiect

- Dangos eich bod wedi ystyried effaith eich prosiect ar allu eich sefydliad i gyflawni ei weithgarwch arferol:
    - Nodi effaith unrhyw achos o gau adeilad fydd ei angen ar y cam adeiladu a sut y caiff hyn ei reoli
    - Nodi effaith y gwaith adeiladu ar eich rhaglen artistig a sut y caiff hyn ei reoli

- Dangos bod eich sefydliad yn ariannol gadarn ac yn cael ei reoli'n dda.

- Dangos eich bod wedi ystyried effaith ariannol eich prosiect yn llawn:
    - Dangos eich bod yn gallu talu unrhyw gostau rhedeg, cynnal a chadw a chylch oes newydd sy'n gysylltiedig â'ch prosiect bob blwyddyn. Sut rydych wedi cyfrifo'r costau hyn?
    - Nodi a yw eich asesiadau'n dangos y caiff eich prosiect effaith gadarnhaol ar gadernid ariannol eich sefydliad. Er enghraifft, drwy gynhyrchu incwm, torri costau neu eich galluogi i weithio gyda sefydliadau eraill.

- Dweud wrthym a fydd eich prosiect yn arwain at fentrau newydd neu'n eich helpu i ymateb i gyfleoedd newydd

- Dweud wrthym a fydd eich prosiect yn eich helpu i achub ar gyfleoedd ariannu o ffynonellau eraill

Gallwch ddarllen mwy am ein gofynion o ran cynnal archwiliad iechyd o'ch sefydliad yn ein Nodiadau Canllaw Ychwanegol: Prosiectau Cyfalaf Mawr.

**Atodiadau: eich cynllun busnes a'ch cyfrif banc**

**Cynllun Busnes**

Ochr yn ochr â'ch gwaith datblygu dyluniad byddwch hefyd wedi llunio cynllun busnes manwl. Rhaid i chi gyflwyno'r cynllun busnes diweddaraf hwn er mwyn ategu'r rhan hon o'ch cynnig prosiect.

Mae hyn yn ein helpu i ddysgu mwy am eich sefydliad a'ch rhaglen artistig, a bydd yn ein helpu i ddeall cyd-destun eich prosiect cyfalaf mawr. Dylai ddangos effaith ariannol eich prosiect yn llawn ynghyd â sut y gwnewch reoli unrhyw oblygiadau refeniw ychwanegol sy'n deillio o'ch datblygiad cyfalaf.

Cyfrif Banc

Rhaid i chi brofi bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad lle mae angen i o leiaf ddau o bobl awdurdodi trafodion. (Fel rheol, gelwir y bobl hyn yn llofnodwyr cyfrif). Ystyr trafodion yw unrhyw godiadau arian, trosglwyddiadau neu daliadau a wneir o gyfrif y sefydliad. Noder na allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithredu â phaslyfr yn unig. Nid oes angen i chi gyflwyno prawf o'ch cyfrif banc os ydych yn gorff statudol.

Mae hyn yn ein helpu i sicrhau eich bod yn gymwys i wneud cais ac mae'n ein helpu i ddeall sut rydych yn rheoli eich arian. Rydym yn cymryd y gwaith o ddosbarthu cyllid cyhoeddus o ddifrif, a dyna pam bod y ffordd rydych yn rheoli eich materion ariannol yn bwysig i ni. Rydym yn disgwyl i'r sefydliadau rydym yn eu cefnogi weithredu systemau rheoli priodol sy'n sicrhau eu bod yn gallu rheoli unrhyw arian a gânt yn effeithiol ac yn briodol. Un o'r mesurau hyn yw ei gwneud yn ofynnol i o leiaf ddau o bobl awdurdodi trafodion.

Gwnawn dderbyn unrhyw gyfuniad o'r dogfennau canlynol i fodloni'r gofyniad hwn. Cofiwch ein bod yn chwilio am brawf fod y cyfrif yn enw'r sefydliad, a bod angen i o leiaf ddau o bobl awdurdodi trafodion:

- Sgan o slip talu wedi'i argraffu ymlaen llaw
- Sgan o siec wag
- Llythyr gan eich banc yn cadarnhau'r manylion sydd eu hangen arnom

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadarnhau hyn drwy ofyn i chi roi rhagor o fanylion am eich cyfrif. Ni fyddwn yn gallu rhyddhau unrhyw daliadau nes i ni gael y wybodaeth hon a chadarnhau ei bod yn gywir. Ystyrir bod unrhyw anghysondeb yn fater.

Rydym yn chwilio am y canlynol:

- Y graddau rydych wedi dangos bod eich sefydliad yn cael ei reoli'n dda a'i fod yn sefydlog, ac mewn sefyllfa dda i gyflawni prosiect cyfalaf mawr

- Y graddau rydych wedi dangos bod eich sefydliad yn ariannol gadarn

- Y graddau rydych wedi ystyried effaith ariannol eich prosiect cyfalaf mawr ar eich sefydliad

## Cynllunio a rheoli prosiect llwyddiannus

*Dywedwch wrthym am eich dull o ymdrin â'r prosiect. Nodwch pwy fydd yn gyfrifol am ei reoli a'i gyflawni a sut y byddwch yn sicrhau bod y prosiect ar y trywydd cywir.*

Yn eich cynnig prosiect, dylech wneud y canlynol:

- Nodi sut y byddwch yn rheoli eich prosiect:
    - Pwy sy'n bennaf gyfrifol am ei gyflawni o fewn eich sefydliad?
    - Sôn am y grŵp rheoli prosiect dynodedig y mae'n rhaid i chi ei sefydlu i oruchwylio'r prosiect, a sut y caiff ei redeg.
    - Os ydych eisoes wedi penodi eich rheolwr prosiect annibynnol, sôn amdano a'i rôl, a sut y cafodd ei ddewis. Os nad ydych wedi dewis eich rheolwr prosiect, sôn am y broses y gwnewch ei dilyn er mwyn penodi un.
    - Sut y gwnewch sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau os ydych yn cyflawni eich prosiect mewn partneriaeth, neu ar y cyd ag un neu fwy o gontractwyr / cyflenwyr?
    - Dweud wrthym am unrhyw brofiad o gyflawni prosiectau tebyg. Beth y gwnaethoch ei ddysgu o'r rheini y gallwch ei roi ar waith yng nghyd-destun y prosiect hwn nawr?

- Nodi sut y byddwch yn mynd ati i reoli'r gwaith o gomisiynu gwaith celf ar gyfer eich prosiect.

- Nodi amserlen eich prosiect a dangos y gellir ei chyflawni.

- Nodi sut y byddwch yn sicrhau bod y prosiect ar y trywydd cywir:
    - Sut y byddwch chi a'ch rheolwr prosiect yn monitro cyllideb eich prosiect?
    - Sut y byddwch chi a'ch rheolwr prosiect yn goruchwylio eich tîm prosiect a'ch contractwr neu gontractwyr?
    - Sut y byddwch chi a'ch rheolwr prosiect yn monitro hynt eich prosiect ac yn ei adrodd i'ch corff llywodraethu a'ch uwch aelodau o staff?

- Sut y byddwch yn gwybod a fu eich prosiect yn llwyddiannus?

Gallwch ddarllen mwy am ein gofynion o ran cynnal archwiliad iechyd o'ch sefydliad ac am reoli prosiect annibynnol yn ein Nodiadau Canllaw Ychwanegol: Prosiectau Cyfalaf Mawr.

Atodiadau

Rhaid i chi gyflwyno'r wybodaeth ganlynol gyda'ch cais.

Cylch Gorchwyl Grŵp Rheoli'r Prosiect

Rhaid i chi sefydlu Grŵp Rheoli Prosiect sy'n gyfrifol am oruchwylio eich prosiect cyfalaf a monitro ei hynt. Rhaid i'r grŵp hwn gwrdd yn rheolaidd a meddu ar gylch gorchwyl cytûn fel bod eglurder o ran ei rôl a'i gyfrifoldebau. Dylai'r cylch gorchwyl hefyd nodi llinellau adrodd clir rhwng y Grŵp ac uwch aelodau o staff a'ch corff llywodraethu.

Rhaglen Adeiladu

Mae'r rhaglen adeiladu yn amlinellu amserlen y gwaith adeiladu. Mae'n bwysig ein bod yn adolygu'r rhaglen er mwyn sicrhau y gellir cyflawni eich prosiect yn yr amser a nodwyd. Gall unrhyw oedi gael effaith bosibl ar gost eich prosiect a rhaid ymdrin â hyn cyn gynted â phosibl.

Rydym yn chwilio am y canlynol:

- Y graddau rydych wedi dangos eich bod yn gallu cyflawni a rheoli eich prosiect yn llwyddiannus, gan sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb.

- Pa mor dda rydych wedi dangos bod gan eich tîm prosiect y sgiliau a'r profiad gofynnol.

## Ariannu prosiect llwyddiannus

*Dywedwch wrthym am gyllideb eich prosiect a'r arian arall y mae angen i chi ei godi er mwyn gallu cyflawni eich prosiect.*

Yn eich cynnig prosiect, dylech wneud y canlynol:

- Dweud wrthym am y cyllid arall sydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect:
    - O ble y daw?
    - A yw ar gael?

- Os nad yw wedi'i sicrhau, nodi sut y byddwch yn mynd ati i godi arian a dangos y codir yr arian mewn da bryd

Gallwch ddarllen mwy am y costau y gallwn ac na allwn eu talu yn y Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru.

Atodiadau: Cyllideb y Prosiect a Chynllun Costau Cam 3

Rhaid i chi gyflwyno cyllideb eich prosiect gyda'ch ffurflen gais. Rhaid gwneud hyn ar ein templed ar gyfer cyllideb prosiect sydd ar gael i'w lawrlwytho o'r ffurflen gais.

Daw'r ffigurau a gyflwynwch yn eich cyllideb ar gyfer y prosiect o Gynllun Costau Cam 3 a gwblhawyd ar y cam datblygu dyluniad. Rhaid i chi hefyd gyflwyno copi o'ch Cynllun Costau gyda'ch ffurflen gais.

Rydym yn chwilio am y canlynol:

- Cyllideb prosiect sy'n seiliedig ar Gynllun Costau Cam 3 realistig a chywir, ac sy'n briodol i faint a natur y prosiect rydych yn ei gyflawni

- Pa mor llwyddiannus rydych wedi bod yn codi arian a pha mor debygol ydych o godi'r holl arian sydd ei angen ar gyfer eich prosiect, os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes

Sut i ddefnyddio'r templed ar gyfer cyllideb y prosiect

Rhaid i gyllideb eich prosiect gael ei chyflwyno ar ein Templed ar gyfer Cyllideb Prosiect.

Bydd y templed yn cyfrifo is-symiau i chi'n awtomatig ac yn helpu i sicrhau eich balansau cyllidebol. Dylech gwblhau'r blychau gwyrdd ar y daenlen, lle bo'n briodol. Os na fydd rhai o'r penawdau'n berthnasol i'ch prosiect gallwch eu gadael yn wag. Ni ellir newid blychau gwyn. Defnyddiwch £ llawn yn unig.

Dylai cyllideb eich prosiect nodi cost eich prosiect (gwariant) a faint a gewch i dalu amdano (incwm). Dylai incwm a gwariant eich prosiect gyfateb.

*Gwariant y Prosiect*

Defnyddiwch y templed i ddweud wrthym faint y bydd eich prosiect yn ei gostio. Defnyddiwch y penawdau i ddangos cost yr holl eitemau y byddwch yn talu amdanynt fel

rhan o'ch prosiect. Gwyddom fod pob prosiect a Chynllun Costau yn wahanol, ond dylai'r penawdau cyllideb a ddefnyddiwn fod yn debyg i'r rhai yng Nghynllun Costau eich prosiect.

Defnyddiwn benawdau tebyg i fonitro cyllideb eich prosiect, felly mae'n syniad da dod yn gyfarwydd â nhw ar y cam hwn.

Rhaid i'r costau rydych yn eu cynnwys fod yn gymwys. Gallwch ddarllen mwy am y costau y gallwn ac na allwn eu talu yn y Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru.

## Costau adeiladu

Nodwch gyfanswm cost yr holl waith adeiladu. Dylech rannu hyn yn waith galluogi a gwaith a gwmpesir gan y prif gontract adeiladu. Gwaith adeiladu sy'n gorfod digwydd er mwyn i brosiect ddechrau, ond nad yw'n rhan o'r prosiect ei hun, yw gwaith galluogi, er enghraifft creu mynedfa i'r safle.

Os ydych yn bwriadu talu £5,000 neu fwy i unrhyw gontractwr, bydd angen i chi ei benodi gan ddilyn proses ddethol gystadleuol. Byddwn yn sicrhau eich bod yn gwneud unrhyw benodiadau mewn ffordd briodol a byddwn yn disgwyl gweld adroddiadau tendr maes o law.

Gallwch ddarllen mwy am ein gofynion o ran caffael yn ein Nodiadau Canllaw Ychwanegol: Prosiectau Cyfalaf Mawr.

## Ffioedd Proffesiynol

Soniwch am y ffioedd proffesiynol y bydd angen i chi eu talu. Rydym wedi rhestru'r ffioedd ar gyfer eich rheolwr prosiect annibynnol a'ch tîm dylunio. Os ydych yn talu ffioedd proffesiynol eraill, soniwch am y penodiadau hyn yn adran "Cynllunio a Rheoli Prosiect Llwyddiannus" eich cynnig prosiect.

Os ydych yn bwriadu talu £5,000 neu fwy i unigolyn neu sefydliad, bydd angen i chi ei benodi gan ddilyn proses ddethol gystadleuol. Byddwn yn sicrhau eich bod yn gwneud unrhyw benodiadau mewn ffordd briodol.

## Costau Dodrefnu

Fel rheol, bydd costau dodrefnu yn cwmpasu eitemau fel cyfarpar a dodrefn rhydd a brynir y tu allan i'r prif gontract.

### Celf Gyhoeddus

Mae'n ofynnol i o leiaf 1% o gost adeiladu eich prosiect fod wedi'i gynnwys yng nghyllideb eich prosiect ar gyfer comisiynu gwaith celf.

### Gwerth cymorth mewn nwyddau

Gall hyn gynnwys gwaith gwirfoddolwr di-dâl, a rhoi tir, adeiladau neu gyfarpar. Nid ydym yn derbyn gostyngiadau gan gyflenwyr fel cyfraniad mewn da i'ch prosiect.
Dylech gyflwyno llythyr gyda'ch cais sy'n cadarnhau'r cymorth mewn nwyddau ac yn dangos gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau a roddir, a sut rydych wedi cyfrifo hynny.

### TAW

Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, dylech gynnwys TAW yng nghyllideb eich prosiect.

Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, dylai cyllideb eich prosiect ond cynnwys TAW na allwch ei hawlio'n ôl (sef "TAW anadferadwy"). Nodwch sut rydych wedi cyfrifo'r TAW anadferadwy rydych wedi'i chynnwys yng nghyllideb eich prosiect.

### Arian wrth gefn

Argymhellwn gadw 10% o gost y prosiect wrth gefn.

### Costau eraill

Nodwch unrhyw gostau eraill y bydd angen i chi eu talu fel rhan o'ch prosiect nad ydynt wedi'u cynnwys o dan benawdau eraill y gyllideb.

### *Incwm Prosiect*

Defnyddiwch y templed i ddweud wrthym am yr incwm y byddwch yn ei ddefnyddio i dalu am y prosiect. Dylech roi enw pob partner cyllid, a ph'un a yw ei gyfraniad wedi'i gadarnhau neu'n destun cais.

### Arian Cyhoeddus Arall

Yma soniwch am unrhyw grantiau gan sefydliadau cyhoeddus fel Llywodraeth Cymru neu'r Undeb Ewropeaidd.

### Cymorth mewn nwyddau

Dylai hyn gyfateb i unrhyw gost mewn nwyddau sydd wedi'i chynnwys yn eich ffigurau ar gyfer gwariant prosiect.

### Incwm Arall

Yma soniwch am unrhyw incwm arall y byddwch yn ei ddefnyddio i dalu am y prosiect. Gall hyn gynnwys:

- Eich arian eich hun (ond os ydych yn aelod o Bortffolio Celfyddydau Cymru ni all hyn ddod o'ch grant refeniw)
- Incwm o godi arian, apeliadau cyhoeddus a rhoddion
- Grantiau gan Ddosbarthwyr eraill y Loteri
- Grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill

## Rheoli Risg

*Dywedwch wrthym sut y byddwch yn nodi, yn monitro ac yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect*

Yn eich cynnig prosiect, dylech wneud y canlynol:

- Dweud wrthym a ydych eisoes wedi nodi unrhyw risgiau
- Dweud wrthym sut y byddwch yn nodi ac yn rheoli risg drwy gydol eich prosiect
- Dweud wrthym pwy sy'n gyfrifol am reoli risg a hysbysu eich corff llywodraethu a'ch uwch aelodau o staff

Rydym yn chwilio am y canlynol:

- Dull cydlynol a strategol o ddadansoddi a rheoli risg.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

# Adran 3: Manylion yr Adeilad

Yn yr adran hon rydym yn gofyn i chi roi peth gwybodaeth sylfaenol am yr adeilad a gaiff fudd o'ch prosiect, os yw'n bodoli'n barod. Rhaid i chi hefyd ddangos eich bod yn ystyried rhwymedigaethau statudol allweddol sy'n gymwys i'ch prosiect.

## Statws yr adeilad

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym am eich prydles. Er mwyn bod yn gymwys am gyllid, rhaid bod gennych o leiaf 25 mlynedd ar ôl o'r brydles.

Os yw'r adeilad ar brydles, rhaid bod gennych ganiatâd eich landlord ar gyfer eich prosiect. Rhaid i chi gyflwyno cadarnhad ysgrifenedig o ganiatâd eich landlord gyda'ch cais, os yw'n gymwys.

Os yw'r adeilad yn rhestredig, rhaid i chi ddweud wrthym a yw'n Radd II, Gradd II* neu Radd I. Dylech drafod eich prosiect gyda'ch awdurdod cynllunio lleol a / neu CADW. Yma dylech nodi canlyniad y trafodaethau hyn.

Rhaid i unrhyw waith a wnaiff newid cymeriad adeilad rhestredig gael Caniatâd Adeilad Rhestredig cyn iddo fynd rhagddo. Nodwch yma a ydych wedi cael Caniatâd Adeilad Rhestredig, neu a ydych yn aros am benderfyniad.

## Arolwg Strwythurol

Nodwch a ydych wedi cynnal arolwg strwythurol o'ch adeilad wrth gynllunio a datblygu eich prosiect, a sut mae ei ganfyddiadau wedi effeithio ar eich prosiect.

Os nad ydych yn credu bod angen cynnal arolwg strwythurol ar gyfer eich prosiect, nodwch pam.

Rhaid i chi gyflwyno copi o'ch arolwg strwythurol gyda'ch ffurflen gais, os yw ar gael.

## Gofynion

### Caniatâd Cynllunio

Nodwch statws eich cais am ganiatâd cynllunio.

Nodwch a ydych wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio **amlinellol** neu **llawn**, a phryd rydych yn disgwyl cael penderfyniad. Os rhoddwyd caniatâd cynllunio, nodwch unrhyw amodau cysylltiedig.

Rhaid i chi gyflwyno copi o'ch caniatâd cynllunio gyda'ch ffurflen gais, os yw ar gael.

## Asbestos

O dan Reoliadau Rheoli Asbestos 2012 (a wnaeth ddisodli Rheoliadau Asbestos yn y Gwaith 2002), os ydych yn gyfrifol am gynnal a chadw eiddo annomestig, mae gennych ddyletswydd i reoli'r asbestos ynddynt, a diogelu unrhyw un sy'n eu defnyddio neu'n gweithio ynddynt rhag y risgiau iechyd sy'n deillio o asbestos.

Os byddwch am wneud unrhyw waith adeiladu neu gynnal a chadw ar y safle, neu ar beiriannau neu gyfarpar a allai gynnwys asbestos, rhaid i chi nodi ble y mae, pa fath o asbestos ydyw a'i gyflwr; asesu'r risgiau, a rheoli'r risgiau hyn.

Dylech nodi sut y byddwch yn cyflawni'r ddyletswydd hon i reoli mewn perthynas â'ch prosiect. Rhoddir rhagor o wybodaeth ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: http://www.hse.gov.uk/asbestos/regulations.htm

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

# Adran 4: Manylion y Prosiect

Yn yr adran hon gofynnwn i chi roi rhai ffeithiau a ffigurau am eich prosiect. Defnyddiwn y wybodaeth hon i'n helpu i fonitro'r hyn sy'n digwydd ledled Cymru ac i adrodd ar effaith ein cyllid.

## Dyddiadau'r Prosiect

Dylai eich prosiect ddechrau pan ddisgwyliwch fynd i gostau. Er enghraifft, wrth brynu cyfarpar, gallai eich prosiect ddechrau pan fo'n rhaid i chi dalu blaendal. Ni allwn ariannu unrhyw weithgaredd sydd eisoes wedi digwydd.

Os cewch grant gennym, byddwn yn defnyddio'r dyddiadau hyn i ofyn am wybodaeth gennych fel adroddiadau ar gynnydd ac adroddiad cwblhau. Os bydd dyddiadau eich prosiect yn newid, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl, gan nodi pam y gwnaethoch y newidiadau hyn.

## Math o Gelfyddyd

Yma gofynnwn i chi nodi, ar ffurf canrannau, y mathau o gelfyddyd sy'n gysylltiedig â'ch prosiect.

Felly os bydd eich prosiect ond yn ymwneud â dawns (er enghraifft prynu llawr dawnsio cludadwy), dylech roi 100% wrth ymyl dawns yn y rhestr a roddir.

Os bydd eich prosiect yn ymwneud â mwy nag un math o gelfyddyd, rhaid i chi roi'r amcangyfrif gorau y gallwch o gyfran y gwahanol fathau o gelfyddyd y mae'n eu cynnwys. Er enghraifft, os mai prynu goleuadau newydd ar gyfer theatr yw diben eich prosiect, meddyliwch am y rhaglen y byddwch yn ei chyflawni a soniwch am y gwahanol fathau o gelfyddyd sydd dan sylw. Efallai y bydd eich ateb yn edrych rhywbeth fel hyn: drama 50%, cerddoriaeth 40% adloniant theatr 10%.

## Cydraddoldebau

Mae sicrhau bod y trawstoriad ehangaf posibl o bobl yn gallu mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt yn hanfodol i'n gwaith. Fel corff cyhoeddus mae gennym gyfrifoldeb diwylliannol, moesol a chyfreithiol i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. Rhown bwys mawr ar y cyfrifoldeb hwn.

Rydym am sicrhau ein bod ni a'r sefydliadau rydym yn eu hariannu yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o amrywiaeth a chydraddoldeb. Hoffem weld mynediad mwy cyfartal i'r celfyddydau, boed hynny fel cynulleidfaoedd neu gyfranogwyr, felly rydym am i'n harian weithio'n galetach o ran cyrraedd y bobl hynny sy'n dioddef anghydraddoldeb.

Rydym hefyd am ddathlu'r rôl y gall y celfyddydau ei chwarae wrth hyrwyddo cydraddoldeb, gan gynnwys meithrin gwell cydberthnasau rhwng pobl sy'n dioddef anghydraddoldeb a'r rheini nad ydynt.

Er gwaethaf y gwaith da a wneir gan lawer o artistiaid a sefydliadau celfyddydol, gwyddom fod rhai pobl yn wynebu rhwystrau o ran mwynhau'r celfyddydau. Dyma un o'r rhesymau pam y cymerwn Gydraddoldeb gymaint o ddifrif. Fel corff cyhoeddus mae'n ofynnol i ni, o dan y gyfraith, gasglu a monitro gwybodaeth am bwy sy'n elwa o'n cyllid. Mae hyn yn ein helpu i adrodd ar ein cynnydd wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y celfyddydau a thargedu cyllid ble mae ei angen fwyaf.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn sôn am bobl â nodweddion gwarchodedig ac rydym yn casglu gwybodaeth am brosiectau celfyddydol sy'n targedu ac yn cyflawni gweithgareddau yn benodol ar gyfer y grwpiau hyn o bobl. Ar hyn o bryd, rydym yn casglu gwybodaeth am grwpiau gan ddefnyddio'r rhestr a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Felly, rydym yn gofyn i chi ddweud wrthym a yw eich gweithgareddau ar gyfer pobl o grŵp oedran penodol, pobl anabl, pobl o hil, crefydd neu gred benodol, p'un a yw'r gweithgaredd ar gyfer dynion yn unig, menywod yn unig, neu'n canolbwyntio ar gyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, neu feichiogrwydd a mamolaeth.

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys](#)

# Adran 5: Datganiad

Yn y rhan hon o'r ffurflen gais, rydym yn gofyn i chi ddarllen peth gwybodaeth bwysig am ein cyfrifoldebau o ran Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth. Mae'n bwysig eich bod yn deall sut y bydd y wybodaeth a roddir gennych yn cael ei defnyddio a'i chadw gennym. Ac mae angen i chi wybod beth i'w wneud os credwch fod unrhyw wybodaeth sydd gennych yn fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol.

Yna gofynnwn i chi gadarnhau nifer o ddatganiadau. Drwy dicio'r blwch rydych yn llofnodi'r ffurflen gais yn electronig ar ran eich sefydliad.

[Yn ôl i'r tudalen Cynnwys]

# Adran 6: Atodiadau

Mae'r rhan hon yn eich galluogi i gyflwyno eich holl ddogfennau ategol, sef atodiadau ar ein system ar-lein.

Rydym wedi dangos yr atodiadau y mae'n rhaid i chi eu cyflwyno gyda'ch ffurflen gais. Dyma nhw eto:

- Cyllideb eich prosiect (rhaid ei chyflwyno ar ein Templed Cyllideb Prosiect wedi'i lawrlwytho)
- Cynllun Costau Cam 3
- Adroddiad Dylunio Cam 3 a set lawn o ddarluniau dylunio a gymeradwywyd gan eich sefydliad (Oherwydd eu maint gofynnwn i chi gyflwyno copïau caled o'r rhain. Rhoddir rhagor o wybodaeth ar y ffurflen gais)
- Manylebau technegol a rhestr o gyfarpar i'w brynu
- Asesiad o gynaliadwyedd a strategaeth cynaliadwyedd
- Archwiliad Mynediad Annibynnol
- Strategaeth Gelf Gyhoeddus
- Cynlluniau Gweithredu a Chynnal a Chadw ar ôl cwblhau
- Cylch Gorchwyl Grŵp Rheoli'r Prosiect
- Rhaglen Adeiladu
- Eich Cynllun Busnes
- Eich dogfen lywodraethu
- Prawf bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad lle mae angen i o leiaf ddau unigolyn awdurdodi trafodion. (Noder na allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithredu â phaslyfr yn unig).

Cofiwch fod y rhain yn orfodol. Maent yn rhan allweddol o'n hasesiad ac ni fyddwn yn gallu derbyn eich cais hebddynt.

Os byddwn wedi cael copi o'ch dogfen lywodraethu ers mis Ionawr 2016, dim ond os yw wedi newid y bydd angen i chi ei hailgyflwyno. Nid oes angen i chi ddarparu eich dogfen lywodraethu os ydych yn gyngor tref, awdurdod lleol, corff iechyd neu brifysgol.

### Sut i lanlwytho eich dogfennau

Defnyddiwch y gwymplen ar waelod y sgrin i lanlwytho eich dogfennau. Ceir yr holl ddogfennau gorfodol yn y gwymplen. Hefyd ceir categori "Arall". Gallwch ddefnyddio'r holl gategorïau hyn fwy nag unwaith, ond nodwch mai 60MB yw'r maint ffeil mwyaf ar gyfer atodiadau.

Os bydd angen help arnoch gyda fformatau dogfennau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am faterion technegol eraill, darllenwch ein Taflen Wybodaeth ar Wneud Cais Ar-lein, neu edrychwch ar ein canllaw datrys problemau ar gyfer atodiadau.

## Gwybodaeth ategol arall

Gwyddom fod prosiectau cyfalaf yn gymhleth, a bydd angen gwahanol wybodaeth ar wahanol brosiectau. Efallai y bydd angen i chi gyflwyno rhai o'r canlynol er mwyn ategu eich cais, y gallwch eu lanlwytho gan ddefnyddio'r categori "arall" o'r gwymplen:

- Adroddiad(au) tendr
- Dyfynbrisiau cyflenwyr / contractwyr
- CVs eich tîm prosiect, oni bai eu bod wedi'u cyflwyno eisoes
- Disgrifiad swydd y Rheolwr Prosiect Annibynnol
- Strategaeth Codi Arian
- Tystiolaeth o gyllid partneriaeth a sicrhawyd hyd yn hyn
- Llythyrau yn cadarnhau unrhyw gymorth mewn nwyddau
- Tystiolaeth o alw am eich prosiect
- Arolwg strwythurol
- Arolwg asbestos
- Dogfennau caniatâd cynllunio

- Caniatâd Adeilad Rhestredig
- Caniatâd gan eich landlord i'ch prosiect fynd rhagddo

Os na fyddwch yn siŵr pa wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer eich cais, gofynnwch i ni. Os na fydd peth o'r wybodaeth hon ar gael eto, gallwn ofyn i hynny fod yn un o'ch amodau grant.

Efallai y byddwch hefyd am roi enghreifftiau o'ch gwaith creadigol neu brosiectau tebyg eraill rydych wedi'u cwblhau.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

# Adran 7: Adolygu fy Nghais

Mae'r rhan hon yn eich galluogi i adolygu'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi hyd yn hyn, a gwneud unrhyw newidiadau. Bydd ein system ar-lein hefyd yn dweud wrthych os ydych wedi methu unrhyw gwestiynau. Os byddwch yn fodlon ar eich cais gallwch glicio ar Cyflwyno. Bydd hyn yn anfon eich cais atom i'w ystyried.

Bydd copi o'ch cais wedi'i gwblhau bob amser ar gael ar ein system ar-lein i chi ei weld, ar ôl i chi glicio ar y botwm i'w gyflwyno. Bydd o dan yr adran "ceisiadau sydd wedi'u cyflwyno" ar ein system ar-lein, ar ôl i chi fewngofnodi. Gallwch hefyd argraffu copi i gadw.

Unwaith y byddwch wedi clicio ar Cyflwyno cewch gydnabyddiaeth awtomatig drwy e-bost. Os na fyddwch yn ei chael gwnewch yn siŵr nad yw yn eich ffolder post sothach. Os na fyddwch wedi cael y neges o hyd, edrychwch ar eich ffurflen gais a cheisio clicio ar Cyflwyno eto.

Os nad yw eich cais wedi'i gwblhau, cliciwch ar Cadw a Gorffen yn Nes Ymlaen. Yna cewch e-bost sy'n cynnwys copi o'ch fersiwn ddrafft. Cadwch yr e-bost er gwybodaeth.

## Bwrw golwg dros eich cais

Byddwn yn cadarnhau bod eich cais wedi ein cyrraedd drwy anfon cydnabyddiaeth atoch drwy e-bost. Bydd hefyd yn gofyn i chi lenwi eich Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal drwy glicio ar y ddolen i'r dudalen benodol ar ein gwefan. Ni ellir ystyried bod eich cais yn gyflawn nes i'r ffurflen hon gael ei llenwi a'i chyflwyno.

Byddwn yn edrych dros eich cais ac yn ei roi i swyddog. Dim ond ceisiadau cyflawn y gallwn eu hasesu, hynny yw ceisiadau sy'n cynnwys yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani mewn digon o fanylder i'n galluogi i gynnal asesiad priodol. Os na allwn asesu eich cais, byddwn yn nodi'r prif resymau dros hyn.

## Beth i'w wneud os na allwch dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol

Os na allwch dderbyn arian loteri am resymau crefyddol, lanlwythwch lythyr gyda'ch cais yn egluro pam. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn ceisio ariannu eich prosiect drwy ffynonellau eraill.

## Ymwadiad

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth a roddir gennym yn gywir. Nid ydym yn tybio nac felly yn datgan unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw un am golled neu ddifrod a achosir gan gamgymeriadau neu hepgoriadau yn y wybodaeth a roddir gennym, p'un a yw'r camgymeriadau neu'r hepgoriadau hyn wedi'u hachosi drwy esgeulustod, damwain neu unrhyw reswm arall.

## Cysylltu â Ni

Os bydd angen unrhyw wybodaeth arall arnoch er mwyn cwblhau eich cais ar-lein gallwch gysylltu â ni:

Ffôn: 0845 8734 900 (cyfraddau galwadau lleol)

Ffôn testun: 029 2045 0123

SMS: 07797 800 504 (codir eich cyfradd rhwydwaith safonol am negeseuon)

E-bost: gwybodaeth@celf.cymru

Gwefan: www.celf.cymru

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys